**EISTEDDFOD YR URDD SIR GAERFYRDDIN 2023**
Perfformiad Theatrig o Sgript Blwyddyn 6 ac iau

(Addasiad allan o *Dosbarth Miss Prydderch a'r Dreigiau* gan Mererid Hopwood. (Llyfr 5 yn y gyfres)

*Gellir newid rhyw ac enwau'r cymeriadau a'r dafodiaith. Pwysleisir mai props syml sydd eu hangen ar gyfer yr ymgom.*

Cymeriadau:

| | |
|---|---|
| Mr Elias | Pennaeth Ysgol y Garn |
| Alfred | disgybl yn Ysgol y Garn |
| Elen | disgybl yn Ysgol y Garn |
| Sara-Gwen | disgybl yn Ysgol y Garn |

*Mae Elen (Benfelen) a Sara-Gwen ar faes yr Eisteddfod ym Mae Caerdydd. Yn weddol agos mae Mr Elias, Prifathro Ysgol y Garn. Mae e'n cerdded yn ôl ac ymlaen yn nerfus. Mae'n dal ffôn symudol yn ei law. Does neb yn dweud gair. Yn sydyn rhuthra Alfred i mewn at Elen a Sara-Gwen a heibio i Mr Elias.*

Mr Elias: (*gan weiddi ar ei ôl yn ofer*)
Alfred! Gan bwyll!

*(Ond mae Alfred yn amlwg newydd glywed rhywbeth syfrdanol ac yn ei anwybyddu'n llwyr.)*

Alfred: Mae Molly ar goll?!

*(Dydy'r lleill yn dweud dim, dim ond nodio eu pen mewn gofid).*

Alfred: Molly! Druan â Molly.

Mr Elias: (*Sydd erbyn hyn wedi agosau atynt.)*
Ie, wir, Alfred bach! Mae Molly ar goll! Disgybl bach mor annwyl.
Da iawn, da iawn, da iawn.

*(Mae gan Mr Elias hen arferiad anffodus o ddweud 'da iawn' drwy'r amser yn enwedig pan mae e'n nerfus. Ond y tro hwn, mae Alfred yn edrych yn gwestiyngar ac mewn anghrediniaeth arno).*

Alfred : Da iawn, Mr Elias?

Mr Elias: Na! Na! Dydy hi DDIM yn 'dda iawn' o gwbl!

Y niwl ‘ma yw’r broblem! Bydd hi’n amhosib ffeindio Molly nes i’r niwl glirio. A bydd angen anferth o wres o ffwrnais fawr yr haul i losgi’r niwl. (*Cerdda i ffwrdd yn gweiddi),* Molly! Molly! Molly!

*(Edrycha’r tri ar ei gilydd mewn anobaith.)*

Alfred: *Yn feddylgar*
Ffwrnais ...
Ffwrnais!? *AWNRIFFS!*

Sara-Gwen: Awnriffs?

Alfred: Awnriffs! (*gan droi at Elen* )Ti’n cofio’r ddraig yn Nhŵr y Castell? *AWNRIFFS!* Mae Awnriffs yn anagram o FFWRNAIS!
Ffwrnais ... Tân Draig ...!

Sara-Gwen: (*Wedi ei brawychu)*
Draig?!!!! Chi ’di gweld draig GO IAWN ...?!

Elen: Do! Wir i ti! Un sy ’di colli ’i thân ers blynyddoedd maith.

Alfred: Ond un sydd – FALLE - yn gw’bod ble mae’r tân ... *SAIB* ’se ni ond yn gallu ’i deall hi’n siarad.

Sara-Gwen: (*Mewn anghrediniaeth)*
Chi ’di gweld draig sy’n SIARAD?!!!

Elen: Do! Wir i ti! Ond dyw ’i hiaith hi’n gwneud dim sens o gwbl.

Alfred: Oni bai ...

Elen: (*Yn amlwg yn dilyn trywydd meddwl Alfred)*
Oni bai ei bod hi’n siarad mewn ANAGRAMAU!

Alfred: A bod pob anagram yn gliw all ddweud wrthon ni ble mae tân y ddraig!’

Elen: (*Gan ysgrifennu’r geiriau ar ddarn o bapur a’u dweud yr un pryd)*
Malff, Llaen Mog, Ryll Weddar Iana…

Sara-Gwen: Wow funud! Chi ’di colli fi. A **chi** ’di colli’r plot! ‘Malff, Llaen Mog, Ryll Weddar Iana’…? Draig?
Draig go iawn?

| | |
|---|---|
| Elen: | Pan ffeindion ni'r Ddraig yn Nhŵr y<br>Castell, roedd hi'n sibrwd 'Leph, Leph, Silp'. |
| Alfred: | A 'Leph' yn anagram o HELP! |
| Elen: | A 'Silp' yw PLIS. |
| Alfred: | A nawr ni'n meddwl mai Awnriffs yw FFWRNAIS… |
| Sara-Gwen: | (*Gan gynhesu at y syniad)*<br>O! Dwi'n CARU anagramau!<br>(*Gan ddarllen y geiriau ysgrifennodd Elen)*<br>'Malff, Llaen Mog, Ryll Weddar Iana.' Reit. Gyflym. Papur. Pensil.<br>Alfred: trïa ddatrys 'Malff'. Elen: 'Llaen Mog' a na' i daclo 'Ryll Weddar Iana'. |
| | *(Mae Sara Gwen yn rhoi papur a phensil yr un i'r tri ac maen nhw'n dechrau ar y gwaith).* |
| | *(Clywir llais Mr Elias ar y ffôn tra bod y tri'n ysgrifennu. Mae e'n dal i gerdded yn ôl ac ymlaen.)* |
| Mr Elias: | 'Newyddion? Na? Dim byd? Ydyn, maen nhw'n saff gen i fan hyn.<br>Elen, Sara-Gwen ac Alfred... |
| Alfred: | LAFFM. MFFLA. ALFFM… FFLAM! |
| Mr Elias: | (*Gan daflu'r ffôn i'r pedwar gwynt a llamu i mewn at y plant.)*<br>FFFFFF Fflam??? Ble?!!!! Tââââân????' |
| Elen: | Na, Mr Elias. Cŵl down. Ni'n chwarae gêm, 'na gyd! |
| Mr Elias: | (*Yn teimlo ychydig yn chwithig ei fod wedi gor-ymateb mae'n mynd yn ôl allan ac yn chwilio ar ei bedwar am y ffôn, gan ddweud)*<br>Y, iawn. Gêm. Wela' i. Da iawn, da iawn, da iawn. |
| Alfred: | Malff yw FFLAM!. |
| Sara-Gwen: | Alfred! Gwych. Oes rhywbeth 'da ti Elen? |
| Elen: | Dim byd. Nella Ogm. Ellan Gom ... O! A Maen Llog. |

Alfred: ‘Maen Llog!’ Mae hwnna’n canu cloch.

Sara-Gwen: Fflam! Maen Llog!

Mr Elias: (*Gan lamu yn ôl i mewn at y plant).*
Fflam! Maen Llog. Mae’r Maen Llog ar dân? Da iawn Da iawn. Mae’r Orsedd ar dân! (*Gan droi at ei ffôn*) :999 ...

Elen: Mr Elias! Sdim byd ar dân a dyw hi ***ddim*** yn ‘dda iawn, da iawn’ o gwbl. Plis. Chill-Pill.

Mr Elias: (*Gan deimlo ychydig yn fwy chwithig ei fod wedi gor-ymateb eto, mae’n mnd yn ôl allan gan ddweud wrtho’i hunan)*
Y, iawn. Sdim byd ar dân. Dim Maen Llog. Dim. Wela’ i. A na, dyw hi DDIM yn dda iawn.

*(gan ddal ei ben fel pe bai’n dechrau gweld sêr).*

Elen: Oes rhywbeth ’da ti, Sara-Gwen?

Sara-Gwen: Dwi’n styc. Hollol styc. Ryll Weddar Iana ...
Mae ’da fi!!!! *Ryll Weddar Iana =* Yr Allwedd Arian

Alfred: YR ALLWEDD ARIAN!! Allwedd Arian Canolfan y Mileniwm. Fan ’ny mae’r gair FFWRNAIS – ar dalcen yr adeilad - a fan ’ny hefyd mae’r ddraig arian. Reit! Rhaid i ni fynd!

*(Maen nhw’n rhuthro heibio i Mr Elias ar wib)*

Mr Elias: (*Gan syllu’n syn ar eu holau).*
Bbbbbble chi’n mynd?

Alfred: I chwilio am dân all losgi’r niwl!

Elen: I chwilio am ddraig ...

Sara Gwen: A Molly!

**Y DIWEDD**